# Cynllun Cydraddoldeb Strategol Blaenau Gwent

# Cynllun Gweithredu 2024/28

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent County Borough Council

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol Blaenau Gwent

# Cynllun Gweithredu 2024/28

*Fersiwn 2024/25*

## Cyflwyniad

Bydd yr Amcanion Strategol yn llunio rhan o'n proses adrodd gorfforaethol, a gaiff eu monitro'n chwarterol, a byddant yn ein cefnogi i wneud cydraddoldeb yn fater i bawb.

Fel rhan o ddatblygiad y cynllun, sefydlwyd Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid gennym. Bydd y grŵp hwn yn cael ei ddatblygu ymhellach drwy sefydlu Grŵp Goruchwylio i fonitro cynnydd ac atebolrwydd y camau gweithredu sy'n gysylltiedig â phob Amcan Strategol. Bydd y grŵp yn cyfarfod bob chwarter ac yn adolygu ac yn monitro'r cynnydd ar gyfer pob cam gweithredu.

Mae dyletswydd arnom i gynhyrchu Adroddiad Blynyddol ar gyfer y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, i ddangos ein cynnydd tuag at ein hamcanion cydraddoldeb, ac fel rhan o hyn byddwn yn adolygu'r Cynllun Gweithredu yn seiliedig ar yr Adroddiad Blynyddol i sicrhau bod camau gweithredu'n parhau i fod yn briodol.

Mae’r camau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu wedi’u rhannu’n dair lefel flaenoriaeth wahanol:

**Blaenoriaeth 1** – Bydd y camau gweithredu hyn yn dechrau ym mlwyddyn 1 y cynllun (2024/25).

**Blaenoriaeth 2** – Bydd y camau gweithredu hyn yn dechrau o fewn dwy flynedd gyntaf y cynllun (2024/25 a 2025/26).

**Blaenoriaeth 3** – Camau gweithredu i'w cyflawni yn ystod cyfnod y cynllun 2024/28.

## ***Amcan 1:** Byddwn yn sefydliad teg a chyfartal*

**Croestoriadedd – nodweddion gwarchodedig trawsbynciol*

| **Cyf.** | **Cam gweithredu** | **Cyfranogiad Allweddol** | **Blaenoriaeth/ Amserlenni** | **Croestoriadedd* / Nodwedd Warchodedig Benodol** |
|---|---|---|---|---|
| 1.1 | Hyfforddiant cydraddoldeb parhaus ar gyfer arweinyddiaeth broffesiynol a gwleidyddol. | Polisi a Phartneriaethau, Tîm Arwain Corfforaethol, Tîm Arwain Corfforaethol Ehangach, Cabinet, Aelodau Etholedig | Blaenoriaeth 1 | Croestoriadedd; Ffocws ar hil 24/25 |
| 1.2 | Datblygu Polisi Cydraddoldeb ar gyfer y sefydliad | Polisi a Phartneriaethau | Blaenoriaeth 1 | Croestoriadedd |
| 1.3 | Ymateb i ganllawiau cenedlaethol, ymchwil ac adroddiadau ar faterion cydraddoldeb, gan gynnwys cyngor ac arweiniad | Polisi a Phartneriaethau a'r Tîm Arwain Corfforaethol | Blaenoriaeth 1 | Hil; Croestoriadedd; |
| 1.4 | Cynnal Sesiwn Briffio Aelodau Etholedig ar bynciau cydraddoldeb perthnasol | Polisi a Phartneriaethau a Gwasanaethau Democrataidd | Blaenoriaeth 1 | Croestoriadedd; Ffocws ar hil 24/25 |
| 1.5 | Gweithredu dull monitro trosfwaol i olrhain cynnydd yn erbyn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol | Hyrwyddwr Aelodau, Polisi a Phartneriaethau, Pob Cyfarwyddiaeth (cynrychiolaeth) | Blaenoriaeth 1 | Croestoriadedd |
| 1.6 | Cryfhau rhaglen waith yr Hyrwyddwr Cydraddoldeb Aelodau Etholedig | Polisi a Phartneriaethau, Gwasanaethau Democrataidd a Hyrwyddwr Aelodau | Blaenoriaeth 2 | Croestoriadedd; |
| 1.7 | Hyrwyddo'r cynnydd a nodwyd o'r Adroddiad Blynyddol | Polisi a Phartneriaethau a'r Tîm Cyfathrebu | Blaenoriaeth 2 | Croestoriadedd |
| 1.8 | Ymgorffori, monitro a gwerthuso defnydd sefydliadol yr Asesiad Effaith Integredig | Pob Cyfarwyddiaeth a Pholisi a Phartneriaethau | Blaenoriaeth 2 | Croestoriadedd |
| 1.9 | Sicrhau polisïau a phrosesau cwynion cadarn ar gyfer aflonyddu hiliol. | Polisi a Phartneriaethau, Tîm Cydlyniant, Gwasanaethau Cyfreithiol, Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyfarwyddiaeth | Blaenoriaeth 1 | Hil a Chrefydd |
| 1.10 | Datblygu sianeli i greu ac arddangos profiadau byw pobl â nodweddion gwarchodedig | Polisi a Phartneriaethau a'r Tîm Cyfathrebu | Blaenoriaeth 2 | Croestoriadedd; Hil a LGBTQ+ |

**Amcan Cydraddoldeb 2:** *Byddwn yn weithle sy'n hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant*

**Croestoriadedd – nodweddion gwarchodedig trawsbynciol*

| Cyf. | Cam gweithredu | Cyfranogiad Allweddol | Blaenoriaeth/ Amserlenni | Croestoriadedd* / Nodwedd Warchodedig Benodol |
|---|---|---|---|---|
| 2.1 | Defnyddio data Datblygu Sefydliadol i fonitro amrywiaeth ymhlith staff. | Pob Cyfarwyddiaeth, Datblygu Sefydliadol a Pholisi a Phartneriaethau | Blaenoriaeth 2 | Croestoriadedd |
| 2.2 | Datblygu cynllun cyfathrebu trosfwaol sy’n codi ymwybyddiaeth o’r Amcanion Cydraddoldeb a dealltwriaeth o Weithredu Cadarnhaol fel y’i diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Polisi a Phartneriaethau a'r Tîm Cyfathrebu | Blaenoriaeth 1 | Croestoriadedd |
| 2.3 | Cynnal ymchwil i ystyried opsiynau i fodloni gofynion cyfreithiol i gyhoeddi data cyflog rhwng y rhywiau, ac i adrodd ar fylchau cyflog anabledd ac ethnigrwydd. | Datblygu Sefydliadol a Pholisi a Phartneriaethau | Blaenoriaeth 3 | Rhyw, Anabledd a Hil. |
| 2.4 | Parhau i adolygu polisïau a gweithdrefnau sefydliadol i sicrhau bod cyfle cyfartal yn cael ei gynnwys yn effeithiol. | Datblygu Sefydliadol | Blaenoriaeth 3 | Croestoriadedd |
| 2.5 | Datblygu, gweithredu a monitro darpariaeth hyfforddiant sefydliadol ar gyfer cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant | Datblygu Sefydliadol, Cefnogaeth Busnes a Pholisi a Phartneriaethau | Blaenoriaeth 1 | Croestoriadedd, Hil, LGBTQ+, Anabledd, Rhyw ac Oedran |
| 2.6 | Hyrwyddo hunan-adnabod cynyddol gan ein staff yn rheolaidd ar bob nodwedd warchodedig | Datblygu Sefydliadol a Pholisi a Phartneriaethau | Blaenoriaeth 2 | Rhyw, Cyfeiriadedd Rhywiol, Hil, Anabledd |

**Amcan Cydraddoldeb 3:** *Byddwn yn creu diwylliant dysgu teg a chynhwysol i bob plentyn a pherson ifanc gyda ffocws ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.*

**Croestoriadedd – nodweddion gwarchodedig trawsbynciol*

| Cyf. | Cam gweithredu | Cyfranogiad Allweddol | Blaenoriaeth/ Amserlenni | Croestoriadedd* / Nodwedd Warchodedig Benodol |
|---|---|---|---|---|
| 3.1 | Adolygu trefniadau monitro data cydraddoldeb a pherfformiad o fewn ysgolion. | Ysgolion, Cyfarwyddiaeth Addysg, Perfformiad, Polisi a Phartneriaethau | Blaenoriaeth 2 | Croestoriadedd |
| 3.2 | Cyflwyno'n effeithiol y gwaith o fynd i'r afael â hiliaeth mewn ysgolion a ddatblygwyd fel rhan o'r dull rhanbarthol. | Ysgolion, Cyfarwyddiaeth Addysg, Polisi a Phartneriaethau | Blaenoriaeth 1 | Hil |
| 3.3 | Asesu ymyriadau sydd ar gael i ysgolion i ddiwallu anghenion llesiant dysgwyr sy'n ystyried y nodweddion gwarchodedig. | Ysgolion, Cyfarwyddiaeth Addysg | Blaenoriaeth 2 | Croestoriadedd |
| 3.4 | Cynyddu cynrychiolaeth cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ar y Fforwm Ieuenctid. | Ysgolion, Cyfarwyddiaeth Addysg, Polisi a Phartneriaethau | Blaenoriaeth 2 | Hil |
| 3.5 | Cefnogi ysgolion i ymgorffori a chyflwyno cynlluniau cydraddoldeb yn llwyddiannus. | Ysgolion, Cyfarwyddiaeth Addysg, Polisi a Phartneriaethau | Blaenoriaeth 2 | Croestoriadedd |
| 3.6 | Llywodraethwyr Ysgol i benodi arweinwyr gwrth-hiliaeth. | Ysgolion, Cyfarwyddiaeth Addysg, Polisi a Phartneriaethau | Blaenoriaeth 3 | Hil |
| 3.7 | Mabwysiadu a gweithredu canllawiau traws cenedlaethol Llywodraeth Cymru. | Cyfarwyddiaeth Addysg, Polisi a Phartneriaethau | Blaenoriaeth 2 | Ailbennu Rhywedd |
| 3.8 | Cefnogi Grwpiau Cefnogi LGBTQ+ yn yr ysgolion uwchradd i sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn cael eu clywed | Ysgolion, Cyfarwyddiaeth Addysg, Polisi a Phartneriaethau | Blaenoriaeth 1 | Cyfeiriadedd Rhywiol |

## **Amcan Cydraddoldeb 4:** *Byddwn yn hyrwyddo ac yn cefnogi cymunedau cynhwysol, diogel a chydlynol*

**Croestoriadedd – nodweddion gwarchodedig trawsbynciol*

| Cyf. | Cam gweithredu | Cyfranogiad Allweddol | Blaenoriaeth/ Amserlenni | Croestoriadedd* / Nodwedd Warchodedig Benodol |
|---|---|---|---|---|
| 4.1 | Datblygu calendr ymgysylltu i barhau i gael adborth gan y gymuned, yn enwedig y rhai â nodweddion gwarchodedig | Polisi a Phartneriaethau, Tîm Cyfathrebu a Phob Cyfarwyddiaeth | Blaenoriaeth 1 | Croestoriadedd |
| 4.2 | Monitro gweithgaredd sy'n bygwth diogelwch cymunedau i gefnogi mesurau ataliol. | Diogelwch Cymunedol, Tîm Cydlyniant | Blaenoriaeth 1 | Croestoriadedd |
| 4.3 | Cymryd camau priodol ar henebion ac enwau strydoedd sy'n gysylltiedig â chaethwasiaeth a gwladychiaeth. | Polisi a Phartneriaethau, Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd | Blaenoriaeth 2 | Hil |
| 4.4 | Nodi hyrwyddwyr cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws meysydd gwasanaeth. | Pob Cyfarwyddiaeth | Blaenoriaeth 3 | Croestoriadedd |
| 4.5 | Gweithio mewn partneriaeth ag ystod eang o sefydliadau yn y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat, i ddarparu pecyn cymorth cyfannol i'r rhai y mae angen adsefydlu arnynt. | Diogelwch Cymunedol, Tîm Cydlyniant, Polisi a Phartneriaethau Phob Cyfarwyddiaeth berthnasol | Blaenoriaeth 3 | Croestoriadedd |
| 4.6 | Datblygu astudiaethau achos dysgu o brofiadau cydlyniant pobl sy'n ceisio noddfa ym Mlaenau Gwent | Polisi a Phartneriaethau, Tîm Cydlyniant, Tîm Cyfathrebu | Blaenoriaeth 1 | Croestoriadedd |

**Amcan Cydraddoldeb 5:** *Byddwn yn sicrhau ymgysylltiad a chyfranogiad effeithiol ar gyfer pobl â nodweddion gwarchodedig.*

**Croestoriadedd – nodweddion gwarchodedig trawsbynciol*

| Cyf. | Cam gweithredu | Cyfranogiad Allweddol | Blaenoriaeth/ Amserlenni | Croestoriadedd* / Nodwedd Warchodedig Benodol |
|---|---|---|---|---|
| 5.1 | Gweithredu'r camau Cydraddoldeb sy'n gysylltiedig â'r Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad | Polisi a Phartneriaethau | Blaenoriaeth 2 | Croestoriadedd |
| 5.2 | Cynnal gweithgareddau ymgysylltu a chyfranogi sy'n cipio 'profiadau byw' pobl sy'n byw gyda, ac yn cael eu heffeithio gan, nodweddion gwarchodedig. | Polisi a Phartneriaethau a Phob Cyfarwyddiaeth | Blaenoriaeth 1 | Croestoriadedd |
| 5.3 | Gwella cynrychiolaeth a chyfranogiad yng ngweithgareddau'r cyngor a gwneud penderfyniadau gan bobl ifanc, pobl anabl, pobl LGBTQ+ a phobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig. | Polisi a Phartneriaethau a Gwasanaethau Democrataidd | Blaenoriaeth 3 | Oedran, Anabledd, LGBTQ+, Hil |
| 5.4 | Parhau i hyrwyddo'r Fforwm Ieuenctid i annog cyfranogiad ehangach plant a phobl ifanc. | Polisi a Phartneriaethau a'r Gyfarwyddiaeth Addysg | Blaenoriaeth 2 | Oedran |
| 5.5 | Ystyried sut rydym yn cefnogi digwyddiadau LGBTQ+ a pharhau i fod yn bartner allweddol i Gynghorau Balchder. | Polisi a Phartneriaethau, Tîm Cydlyniant, Tîm Cyfathrebu | Blaenoriaeth 2 | Cyfeiriadedd Rhywiol |
| 5.6 | Annog a chefnogi cyfranogiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Gadael Gofal ledled gwasanaethau'r Cyngor ymhellach | Gwasanaethau Cymdeithasol a Pholisi a Phartneriaethau | Blaenoriaeth 2 | Croestoriadedd |

**Amcan Cydraddoldeb 6:** *Byddwn yn ymdrechu i leihau anghydraddoldeb a achosir gan dlodi.*

**Croestoriadedd – nodweddion gwarchodedig trawsbynciol*

| Cyf. | Cam gweithredu | Cyfranogiad Allweddol | Blaenoriaeth/ Amserlenni | Croestoriadedd* / Nodwedd Warchodedig Benodol |
|---|---|---|---|---|
| 6.1 | Cyflawni'r Grŵp Costau Byw, gan ystyried anghydraddoldeb yn sgil tlodi | Pob Cyfarwyddiaeth | Blaenoriaeth 1 | Croestoriadedd, Economeg-Gymdeithasol |
| 6.2 | Darparu rhaglenni gwrthdlodi a ariennir gan Lywodraeth Cymru drwy'r Grant Plant a Chymunedau | Grŵp Costau Byw | Blaenoriaeth 2 | Croestoriadedd, Economeg-Gymdeithasol |
| 6.3 | Gweithio mewn partneriaeth â lleoliadau cymunedol i wella a chefnogi'r ddarpariaeth banc bwyd. | Grŵp Costau Byw, Polisi a Phartneriaethau, Partneriaeth Llesiant Lleol | Blaenoriaeth 2 | Croestoriadedd, Economeg-Gymdeithasol |
| 6.4 | Dadansoddi agwedd economaidd-gymdeithasol yr Asesiad Effaith Integredig | Polisi a Phartneriaethau | Blaenoriaeth 2 | Croestoriadedd, Economeg-Gymdeithasol |
| 6.5 | Ceisio defnyddio'r wybodaeth a nodwyd drwy'r Hybiau Cymunedol a gwasanaethau Cyngor ar Bopeth i ddylanwadu ar y ffrwd waith Costau Byw. | Grŵp Costau Byw, Polisi a Phartneriaethau, Tîm Profiad Cwsmeriaid | Blaenoriaeth 2 | Croestoriadedd, Economeg-Gymdeithasol |
| 6.6 | Cynnal ymchwil a dadansoddi i ddeall economeg-gymdeithasol Blaenau Gwent gan ganolbwyntio ar anghydraddoldeb o nodweddion gwarchodedig. | Polisi a Phartneriaethau | Blaenoriaeth 3 | Croestoriadedd, Economeg-Gymdeithasol |
| 6.7 | Parhau i flaenoriaethu cymorth i'r rhai sy'n gadael Gofal y mae eu bywydau wedi cael eu heffeithio'n andwyol oherwydd yr argyfwng costau byw | Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, Grŵp Costau Byw | Blaenoriaeth 1 | Croestoriadedd, Economeg-Gymdeithasol |
| 6.8 | Ystyried canfyddiadau Adroddiad Plant yng Nghymru ar Dlodi Plant. | Grŵp Costau Byw | Blaenoriaeth 2 | Oedran, Economeg-Gymdeithasol |